Llywodraeth Cymru | Astudiaeth Rhanbarthau ac Ardaloedd Gwledig y FfDC


# Canolbarth a De-orllewin Cymru – Adroddiad Cryno Gweithdy Ardaloedd Gwledig

## Llandeilo, 30 Tachwedd 2018

264350-00 | Cyhoeddi | Ionawr 2019








Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ARUP

# Cynnwys


| | | | Tudalen |
|---|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | | **1** |
| | 1.1 | Cyd-destun yr Astudiaeth | 1 |
| | 1.2 | Cynnwys Rhanddeiliaid | 2 |
| | 1.3 | Diben | 3 |
| | 1.4 | Strwythur | 3 |
| **2** | **Trefniadau a Mynychwyr** | | **4** |
| | 2.1 | Manylion | 4 |
| | 2.3 | Agenda | 4 |
| | 2.4 | Cyflwyniad | 5 |
| | 2.5 | Gweithgareddau | 5 |
| | 2.6 | Cyfranogwyr | 6 |
| **3** | **Canlyniadau Gweithgaredd 1 – ymarferiad 'dotiau gludiog'** | | **8** |
| | 3.1 | Diffinio Ardaloedd Gwledig yng Nghymru | 8 |
| | 3.2 | Meithrin Ardaloedd Gwledig yng Nghymru | 9 |
| | 3.3 | Cyfraniadau Ychwanegol | 10 |
| **4** | **Canlyniadau Gweithgaredd 2 - SWOT** | | **11** |
| | 4.1 | Cymdeithasol a Diwylliannol | 11 |
| | 4.2 | Economaidd | 13 |
| | 4.3 | Amgylcheddol | 15 |
| | 4.4 | Crynodeb: Trosolwg Rhanbarthol | 18 |


## Atodiadau


**Atodiad A**

Cyflwyniad Gweithdy Ardaloedd Gwledig Canolbarth a De-orllewin Cymru

**Atodiad B**

Allbynnau'r Gweithgaredd Dotiau Gludiog

**Atodiad C**

Ffotograffau Gweithgaredd SWOT

**Atodiad CH**


Ardaloedd Gwledig Canolbarth a De-orllewin Cymru – Cofrestr Digwyddiadau

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cyd-destun yr Astudiaeth

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn haf 2018, bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau paratoi'r FfDC Drafft yng ngaeaf 2018/19. Bwriedir cynnal ymgynghoriad ar y FfDC Drafft ym mis Gorffennaf 2019.

Fel yr amlinellwyd yn yr Opsiwn a Ffefrir, bwriedir i'r FfDC gynnwys polisïau cenedlaethol a rhanbarthol ar draws y rhanbarthau diffiniedig. Bydd y tri rhanbarth yn cwmpasu Gogledd, Canolbarth a De-orllewin a De-ddwyrain Cymru. Mae'r rhanbarthau hyn yn adlewyrchu'r rhanbarthau a nodwyd gan Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr Economi a gellir eu gweld yn Ffigur 1.




Ffigur 1 Rhanbarthau'r FfDC

Yn ystod y gwaith ymgysylltu hyd yma mewn perthynas â'r FfDC, mae dyfodol Cymru wledig wedi dod i'r amlwg fel thema allweddol. Ceir pryderon, wrth adael yr Undeb Ewropeaidd, fod yna botensial i ardaloedd gwledig deimlo'r effeithiau mwyaf.

Mae thema arall sydd wedi dod i'r amlwg yn ymwneud â rôl ganfyddedig y system gynllunio mewn ardaloedd gwledig. I gyffredinoli, mewn ardaloedd trefol, gwelir y system gynllunio fel un o lu o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddeilliannau fel rhan o ryngweithio dynamig a chymhleth rhwng pobl, polisïau a phenderfyniadau a wneir gan ystod o weithredwyr. Mewn ardaloedd gwledig, mae'r pwynt wedi cael ei fynegi dro ar ôl tro, sef bod y system gynllunio yn fwy dylanwadol o lawer o ran llywio deilliannau ac fe'i ystyrir yn rhwystr rhag atal pethau a fyddai fel arall yn digwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus, drwy'r ymchwil hon, i ddeall beth all y system gynllunio ei wneud drwy'r FfDC, yn ychwanegol at Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 6 'Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy' i gefnogi ardaloedd gwledig. Mynegwyd barnau hefyd fod polisi cynllunio cenedlaethol eisoes yn cefnogi economïau gwledig, arallgyfeirio a darparu ar gyfer tai mewn ardaloedd gwledig, ac nid yw'n amlwg beth arall y gellir darparu ar ei gyfer.

Bwriad yr ymchwil yw cyflawni dealltwriaeth ofodol well o ardaloedd sy'n wledig eu natur yn bennaf, ac y gallai polisïau â ffocws gwledig eu cefnogi. Mae angen yr ymchwil i ddatblygu methodoleg FfDC sy'n defnyddio ymagweddau presennol, er mwyn amlinellu sut gellir adnabod ardaloedd gwledig ac yna cymhwyso hyn yn fras i nodi Cymru wledig at ddiben y cam hwn o broses y FfDC.

Mae Rhan 1 yr ymchwil hon yn seiliedig ar y tri rhanbarth diffiniedig a ddefnyddir i strwythuro'r FfDC. Nid yw'r ardaloedd gwledig sydd i'w nodi drwy'r ymchwil hon yn 'rhanbarthau'. Ni ragwelir y bydd rhanbarth gwledig yn y FfDC. Bydd yr ardaloedd gwledig a nodir yn eistedd o fewn y tri rhanbarth, a gallai ardaloedd gwledig groesi'r ffiniau rhanbarthol hyn. Y deilliant disgwyliedig yw datblygu polisïau'r FfDC sy'n ymwneud ag ardaloedd gwledig yn genedlaethol a/neu bolisïau â ffocws gwledig sy'n benodol i ardaloedd gwledig penodol.

## 1.2 Cynnwys Rhanddeiliaid

Fel rhan o'r astudiaeth, mae Arup wedi arwain dwy ymagwedd at gynnwys rhanddeiliaid:

1. Fel rhan o'r gwaith casglu data / gwybodaeth, cysylltwyd ag Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru i ofyn am wybodaeth feintiol sydd ganddynt er mwyn llywio'r ymchwil hon. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, data ar gyflogaeth leol, tai a data amgylcheddol; a

2. Fel rhan o'r broses SWOT ac wrth fynd ati i nodi blaenoriaethau gwledig, gwahoddwyd 123 o sefydliadau i fynychu cyfres o ddigwyddiadau gweithdy, yn cynrychioli'r rheiny â diddordeb yn yr economi, cymdeithas, diwylliant a'r amgylchedd yng Nghymru. Canolbwyntiodd y gweithdai ar archwilio ystod o feysydd polisi a materion, yn ogystal â thrafodaethau ynglŷn â'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) ym mhob rhanbarth, gyda ffocws ar ardaloedd gwledig.

## 1.3 Diben

Bydd y data / gwybodaeth a gesglir fel rhan o'r astudiaeth yn cael eu cyflwyno yn Adroddiad yr Astudiaeth. Mae'r Adroddiad Gweithdy hwn yn rhoi canlyniadau digwyddiad Ardaloedd Gwledig Canolbarth a De-orllewin Cymru ac yn darparu adroddiad ffeithiol am y digwyddiad, ei drafodaethau a'i ganfyddiadau cychwynnol.

Paratowyd Adroddiadau Gweithdy Ardaloedd Gwledig ar wahân ar gyfer digwyddiadau ardaloedd gwledig Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.

Darperir dadansoddiad SWOT yn Adroddiad llawn yr Astudiaeth.

## 1.4 Strwythur

Cyflwynir yr Adroddiad Gweithdy hwn yn yr adrannau canlynol:

- Mae Adran 2 yn disgrifio manylion y gweithdai a'r rheiny sy'n gysylltiedig;
- Mae Adran 3 yn darparu canlyniadau'r gweithgaredd rhanddeiliaid cyntaf, gan helpu i ystyried pa ddangosyddion sy'n helpu i ddiffinio ardaloedd gwledig orau a pha fathau o seilwaith economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sydd bwysicaf i weithrediad a llwyddiant ardaloedd gwledig yn y rhanbarth;
- Mae Adran 4 yn darparu canlyniadau'r ail weithgaredd rhanddeiliaid, yn cynnwys trafodaethau â ffocws am gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y rhanbarth – gan ganolbwyntio ar faterion gwledig.

# 2 Trefniadau a Mynychwyr

## 2.1 Manylion

Archwiliwyd amryw leoliadau, mannau cyfarfod, dyddiadau ac amserau, a'r rheiny y penderfynwyd arnynt sy'n adlewyrchu cyfyngiadau a gofynion yr astudiaeth orau, gan ystyried capasiti, hygyrchedd a'r rhaglen. Roedd manylion digwyddiad Canolbarth a De-orllewin Cymru fel a ganlyn:

**Lleoliad** Llandeilo

**Man Cyfarfod** The Plough Inn

**Dyddiad** 30 Tachwedd 2018

**Amser** 13.30 – 16.00

## 2.2 Y Gymraeg

Darparwyd holl ddeunyddiau'r digwyddiad yn Gymraeg a Saesneg, a gwahoddwyd mynychwyr i gyfranogi yn eu dewis iaith.

I hwyluso hyn, cefnogwyd Arup gan Trosol a ddarparodd wasanaethau cyfieithu ysgrifenedig.

Yn ystod y gweithgareddau grŵp yn y gweithdai, roedd unrhyw un a oedd yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny diolch i wasanaeth cyfieithu ar y pryd, a ddarparwyd gan Trosol hefyd.

## 2.3 Agenda

Roedd strwythur y gweithdy yn canolbwyntio ar yr eitemau canlynol:

| Eitem | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cyflwyniadau** | Cyflwynwyd tîm y prosiect a gofynnwyd i randdeiliaid nodi eu henw a'u sefydliad yn eu tro, er mwyn helpu'r cyfranogwyr werthfawrogi amrywiaeth ac ystod y diddordebau cysylltiedig. Amlinellwyd manylion y trefniadau ymarferol hefyd. |
| **Yr Astudiaeth** | Pennodd Llywodraeth Cymru y cyd-destun ar gyfer yr astudiaeth, gan ddarparu'r cefndir i'r FfDC, yr ymgynghoriad arno, cwmpas ymchwil Arup, ymagwedd at yr ymchwil ardaloedd gwledig a rhaglenni. |
| **Data a thueddiadau** | Eglurodd Arup y mathau o ffyrdd y gellir diffinio ardaloedd gwledig yn ogystal â gwybodaeth a nodweddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol lefel uchel, a'r mapiau gofodol a geisiwyd, ac sy'n llywio'r astudiaeth. Mae tueddiadau defnyddiol i ddangos cymariaethau ar hyd rhanbarthau Cymru yn gosod cyd-destun ardal yr astudiaeth cyn cynnal y gweithgareddau rhanddeiliaid. |
| **Diffiniadau data a materion** | Gweithgaredd 1 - Ymarferiad 'dotiau gludiog' – fe wnaeth hwn helpu rhanddeiliaid i rannu'u barnau ynglŷn â diffinio a meithrin ardaloedd gwledig, fel ystyriaethau pwysig ar gyfer datblygu'r FfDC. |

| Eitem | Disgrifiad |
|---|---|
| **SWOT** | Gweithgaredd 2 – Ymarferiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau – fe wnaeth hwn hwyluso trafodaethau am faterion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n berthnasol i'r ardaloedd gwledig yn y rhanbarth a thu hwnt. |
| **Camau nesaf** | Fe wnaeth Arup a Llywodraeth Cymru gloi'r digwyddiad trwy ddiolch i gyfranogwyr am gymryd rhan, gan esbonio sut gallent barhau'n gysylltiedig a beth yw'r camau nesaf ar gyfer yr astudiaeth a'r FfDC. Roedd hyn yn cynnwys y byddai Adroddiad Gweithdy ffeithiol yn cael ei rannu, cyfarfodydd rhanddeiliaid â ffocws yn y dyfodol am brosiectau a chynlluniau, byddai data'n cael ei gasglu i'w gyhoeddi drwy'r Porth Lle, ac Adroddiad Astudiaeth ac amserlen ar gyfer cyhoeddi'r FfDC. |

## 2.4 Cyflwyniad

Roedd cyflwyniad PowerPoint yn cyd-fynd â'r eitemau agenda uchod, yn darparu sbardunau a thestun a delweddau defnyddiol. Cynhwysir copi yn Atodiad A.

## 2.5 Gweithgareddau

Gofynnwyd i randdeiliaid gyfranogi mewn dau weithgaredd fel rhan o'r gweithdy, ac fe'u disgrifir yn eu tro isod.

### 2.5.1 Gweithgaredd 1 – Ymarferiad 'dotiau gludiog'

Er mwyn pennu'r meysydd polisi ardaloedd gwledig a'r materion sydd o'r diddordeb mwyaf yn y rhanbarth, a ph'un ai'r FfDC yw'r mecanwaith priodol ai peidio i helpu i fynd i'r afael â'r rhain, roedd sesiwn ryngweithiol yn cynnwys gofyn i randdeiliaid helpu:

- Dewis dangosyddion gwahanol a allai helpu diffinio ardaloedd gwledig orau yng nghyd-destun y rhanbarth;
- Nodi seilwaith economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sydd bwysicaf i weithrediad a llwyddiant ardaloedd gwledig yn y rhanbarth; a
- Ph'un a oes unrhyw ffyrdd eraill i ddiffinio ardaloedd gwledig neu seilwaith gwerthfawr i'r rheiny a nodwyd gan Arup a Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y gweithgareddau hyn, darparwyd nifer union benodol o ddotiau gludiog i gyfranogwyr i'w gosod ar gyfres o daflenni gweithgareddau, er mwyn cofnodi'u dewisiadau a'u dymuniadau yn briodol.

Darperir copi o'r gweithgareddau wedi'u cwblhau yn Atodiad B.

Rhoddir eglurhad pellach ochr yn ochr â chrynodeb o'r canlyniadau ym Mhennod 3 yr adroddiad hwn.

### 2.5.2 Gweithgaredd 2 – SWOT

Ffurfiwyd tri grŵp gan y mynychwyr, ac yn eu tro aethant ati i drafod materion gweledig a oedd yn berthnasol i'r rhanbarth mewn perthynas â phob un o'r themâu bras canlynol, sy'n adlewyrchu pedair colofn datblygu cynaliadwy yng Nghymru:

1. Cymdeithasol a Diwylliannol;
2. Economaidd; ac
3. Amgylcheddol.

Cafodd y sesiynau eu hwyluso a'u nodi'n ysgrifenedig er mwyn helpu annog trafodaeth a chofnodi'r materion wrth iddynt gael eu codi.

Treuliodd bob grŵp rhwng 20 a 30 munud yn trafod pob un o'r themâu.

Darperir ffotograffau o'r ymarferiad a chofnodion o'r allbynnau yn Atodiad C, a rhoddir crynodeb o'r trafodaethau ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

## 2.6 Cyfranogwyr

### 2.6.1 Mynychwyr

Fe wnaeth 21 o gyfranogwyr fynychu'r gweithdy, yn cynrychioli'r sefydliadau a ganlyn:

- Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Dyfodol i'r Iaith
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Ceredigion
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Prifysgol Aberystwyth
- Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
- Bwrdd Strategaeth Economaidd Dinas Bae Abertawe
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Gwasanaeth Tân Canolbarth a De-orllewin Cymru
- Fforwm Arfordir Sir Benfro
- Persimmon Homes Gorllewin Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cymdeithas Dai Sir Fynwy
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cynghrair Twristiaeth Cymru
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Western Power Distribution

Cynhwysir copi o'r gofrestr digwyddiadau yn Atodiad CH.

### 2.6.2 Ymddiheuriadau

Roedd y rhai a gafodd wahoddiad ond nad oeddent yn gallu mynychu yn cynnwys:

- Cymdeithas Cludiant Cymunedol
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Dŵr Cymru Welsh Water
- Associated British Ports
- Sefydliad y Peirianwyr Sifil
- Network Rail
- Chwaraeon Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cymdeithas Chwaraeon Cymru

# 3 Canlyniadau Gweithgaredd 1 – ymarferiad 'dotiau gludiog'

Gellir gweld holl allbynnau'r gweithgaredd hwn yn Atodiad B, a darperir crynodeb isod.

## 3.1 Diffinio Ardaloedd Gwledig yng Nghymru

Gofynnwyd i gyfranogwyr osod eu dot gludiog o fewn rhes i gynrychioli'u dewis orau o ran pa ddangosyddion sy'n helpu i ddiffinio ardaloedd gwledig yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru orau. Roedd cyfranogwyr yn gallu dewis y pum opsiwn yr oeddent yn eu ffafrio o un ar ddeg o opsiynau.

Mae'r canlyniadau, fel y'u dangosir yn llawn yn Atodiad B, yn dangos bod pob un o'r opsiynau gwahanol wedi'u dewis o leiaf unwaith, ond gyda chonsensws amlwg fod rhai mathau o ddangosyddion yn cael eu hystyried yn bwysicach na rhai eraill ar gyfer y cyfranogwyr.

At ddibenion yr adroddiad hwn, darparwyd cyfanswm cyfrifiad er mwyn dangos y dewisiadau. Mae hyn yn ceisio helpu hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch pa ddangosyddion sy'n diffinio ardaloedd gwledig orau yn y rhanbarth. Dangosir hyn isod:

| Dangosyddion | Nifer o weithiau y dewiswyd |
|---|---|
| Dwysedd poblogaeth / teneurwydd trefol | 17 |
| Dwysedd cyflogaeth | 5 |
| MALlC Mynediad at Wasanaethau | 4 |
| Sectorau cyflogaeth gwledig | 11 |
| Pellter teithio i'r gwaith / ardaloedd teithio i'r gwaith | 10 |
| Pellter at gefnffordd | 8 |
| Cwmpas band eang | 8 |
| Maint cwmnïau / cyfran o BBaChau | 3 |
| Cyllid UE / Buddsoddiad cyfalaf / NUTS3 | 1 |
| Tir amaethyddol | 14 |
| Topograffeg | 6 |

Mae'r pum dangosydd uchaf sy'n diffinio ardaloedd gwledig orau yn y rhanbarth yn cynnwys:

1. Dwysedd poblogaeth / teneurwydd trefol;
2. Tir amaethyddol;
3. Sectorau cyflogaeth gwledig;
4. Pellter teithio i'r gwaith / ardaloedd teithio i'r gwaith; a
5. Phellter at gefnffordd a Chwmpas band eang, a ddewiswyd yn gyfartal.

## 3.2 Meithrin Ardaloedd Gwledig yng Nghymru

Gofynnwyd i gyfranogwyr osod eu dot gludiog o fewn rhes i gynrychioli orau eu dewis o ran pa seilwaith economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sydd bwysicaf i weithrediad a llwyddiant ardaloedd gwledig yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. Roedd cyfranogwyr yn gallu dewis y pum opsiwn yr oeddent yn eu ffafrio o dri ar ddeg o opsiynau.

Mae'r canlyniadau, fel y'u dangosir yn llawn yn Atodiad B, yn dangos bod pob un ac eithrio un o'r opsiynau gwahanol wedi'u dewis o leiaf unwaith, ond gyda chonsensws amlwg fod rhai mathau o seilwaith yn cael eu hystyried yn bwysicach na rhai eraill ar gyfer y cyfranogwyr.

At ddibenion yr adroddiad hwn, darparwyd cyfanswm cyfrifiad er mwyn dangos y dewisiadau. Mae hyn yn ceisio helpu hysbysu Llywodraeth Cymru ynghylch pa fathau o seilwaith sy'n cael eu gwerthfawrogi neu'u blaenoriaethu fwyaf o fewn ardaloedd gwledig yn y rhanbarth. Dangosir hyn isod:

| Mynediad at… | Nifer o weithiau y dewiswyd |
|---|---|
| Tai fforddiadwy | 15 |
| Cymorth a chyllid i fusnes | 6 |
| Addysg | 9 |
| Gofal iechyd | 11 |
| Band eang cyflymder uchel | 5 |
| Marchnadoedd rhyngwladol | 1 |
| Cyflogaeth / swyddi lleol | 14 |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | 9 |
| Tai preifat | 2 |
| Marchnadoedd rhanbarthol yn y DU ac Iwerddon | 2 |
| Llety rhent | 3 |
| Siopau a gwasanaethau (e.e. siop cyfleustra, swyddfa'r post a banc ac ati) | 12 |
| Cefnffyrdd | 2 |

Mae'r pum math uchaf o seilwaith yr ystyrir mai nhw yw'r pwysicaf i weithrediad a llwyddiant ardaloedd gwledig yn y rhanbarth yn cynnwys:

1. Tai fforddiadwy
1. Cyflogaeth / swyddi lleol
3. Siopau a gwasanaethau (e.e. siop cyfleustra, swyddfa'r post a banc ac ati)
4. Addysg
5. Gofal iechyd

## 3.3 Cyfraniadau Ychwanegol

Anogwyd cyfranogwyr i rannu unrhyw feddyliau pellach ynglŷn ag unrhyw ddangosyddion neu seilwaith a allai helpu diffinio neu feithrin ardaloedd gwledig. Dangosir y canlyniadau yn llawn yn Atodiad B a nododd rhanddeiliaid y pwyntiau canlynol yn ysgrifenedig mewn ymateb:

1. Dwysedd da byw
2. Mapiau tir Ffermwedd / Tirwedd bywyd gwyllt / Cyrion Ymylol
3. Teithiau rheilffordd hygyrch a dibynadwy
4. Coedwigaeth
5. Defnydd Tir a Dosbarthiad Tir Amaethyddol
6. Peiriannau arian
7. Cyfleusterau cymunedol
8. Grwpiau Ieuenctid
9. Amlder newid i berchnogaeth tai
10. Cyfran o dai wedi'u prynu heb fynediad at forgais
11. Ymdeimlad o le fel un anghysbell (mewn mesur ansoddol, yn hytrach nag agosrwydd)
12. Defnydd tir a chwmpas tirwedd

# 4 Canlyniadau Gweithgaredd 2 - SWOT

Cafodd pobl eu hannog i ystyried Cryfderau / Gwendidau fel rhai 'Cyfredol' a Chyfleoedd / Bygythiadau fel rhai yn y 'Dyfodol'.

Hwyluswyd trafodaethau SWOT a gwnaethpwyd nodiadau er mwyn helpu cofnodi pob un o'r pwyntiau a godwyd ac a rannwyd. Cyflwynir y rhain yn yr adrannau isod.

Darperir y dadansoddiad o'r SWOT yn Adroddiad yr Astudiaeth ar wahân.

Darperir ffotograffau o'r allbynnau a'r trafodaethau yn Atodiad C.

Mae Adran 4.4 yn rhoi crynodeb a throsolwg rhanbarthol.

## 4.1 Cymdeithasol a Diwylliannol

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
|---|---|
| • Hunaniaeth ddiwylliannol<br>• Ardaloedd Cymraeg eu hiaith<br>• Oedran ymddeol cynnar (55+) fel ased i gymunedau<br>• Ymatebolrwydd a blaenweithgaredd cymunedau gwledig<br>• Ffordd o fyw<br>• Mudiad y Ffermwyr Ifanc a grwpiau tebyg<br>• Rhwydweithiau cryf mewn cymunedau presennol a hirsefydlog<br>• Amser canfyddedig i fyfyrio a gwneud penderfyniadau gwell (mantais i gynllunio cymunedol)<br>• Twristiaeth<br>• Astudiaethau achos yn seiliedig ar gymuned | • Pellter i'r gwaith<br>• Seilwaith rheilffordd a llwybro<br>• Iechyd meddwl<br>• Mynediad at wasanaethau a darpariaeth<br>• Colli ymdeimlad o gymunedau trwy gyfleusterau neu ganolfannau yn dirywio e.e. capeli<br>• Patrymau teithio i'r ysgol – effaith ar iechyd a lles<br>• Cyfleoedd cyflogaeth a chydraddoldeb<br>• Canolfannau cymudwyr yn hytrach na chymunedau<br>• Pobl ifanc yn allfudo (y rhai 24-30 oed) |

| CYFLEOEDD | BYGYTHIADAU |
|---|---|
| • Twristiaeth a darparu 'cynnig newydd'/arallgyfeirio<br>• Cynlluniau ynni adnewyddadwy yn y gymuned<br>• Arloesi cymdeithasol ac entrepreneuriaeth<br>• Canolfannau busnes BBaCh<br>• Technoleg a thrafnidiaeth (e.e. cerbydau trydan)<br>• Adnodd cymuned sydd wedi ymddeol yn gynnar (55+)<br>• Gwella hygyrchedd digidol a 5G<br>• Cynllunio lleoedd i gynnal cymunedau<br>• Mentoriaeth fusnes<br>• Treth twristiaeth<br>• Cynhyrchu ynni yn lleol<br>• Lleoliad 'gwasanaethau dyfodolaidd' yn sgil gofod mewn ardaloedd gwledig<br>• Ffyrdd newydd o weithio e.e. gweithio o gartref<br>• Moderneiddio ysgolion | • Prisiau tanwydd a'r effaith ar yr economi wledig<br>• Gofal cymdeithasol i'r henoed<br>• Mynediad 16+ i ysgolion<br>• Patrymau teithio i'r ysgol – effaith ar iechyd a lles<br>• Cyfleoedd cyflogaeth a chydraddoldeb<br>• Canolfannau cymudwyr yn hytrach na chymunedau<br>• Pobl ifanc yn allfudo (y rhai 24-30 oed)<br>• Brexit, yn cynnwys dylanwad porthladdoedd Iwerddon a'r cysylltiad ag Ewrop |

Trafodwyd Ysgogiadau a Rhwystrau cynllunio hefyd (sef cyfleoedd, mecanweithiau neu gyfyngiadau i bolisi cynllunio llwyddiannus a system rheoli datblygu), a chodwyd y materion canlynol (bob un ohonynt yn ysgogiadau):

- Cefnogaeth i ddarparu ynni yn lleol
- Cymhellion treth a chynllunio
- Dyrannu tir ar gyfer cyfleusterau cymunedol ac ynni adnewyddadwy cynaliadwy
- Cynllunio lleoedd i gynnal cymunedau
- Strategaeth addysg
- Cynllun trafnidiaeth
- Angen am bolisi cydgysylltiedig rhwng meysydd polisi gofodol gwahanol

Trafodwyd blaenoriaethau ar gyfer y FfDC, a daeth y pwyntiau allweddol canlynol i'r amlwg:

- Datblygu hyblyg
- Creu 'ffordd dda o fyw' i gynnal cymunedau
- Cysylltiadau â threfi a chanolfannau trefol
- Cymorth buddsoddi ar gyfer datblygu
- Cymorth strategol ar gyfer gwasanaethau lleol
- Stoc tai gwell a theipograffeg
- Ffocws ar gadw cyfleusterau cymunedol unigol a chadw canolfannau presennol e.e. neuaddau pentref
- Cymorth ar gyfer cynlluniau arloesol mewn ardaloedd trefol

## 4.2 Economaidd

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
|---|---|
| • Twristiaeth<br>• Asedau hanes a threftadaeth (ffisegol ac fel arall)<br>• Apêl ryngwladol<br>• Canolfannau gwledig ac ardaloedd dibynnol<br>• Ffordd o fyw<br>• Ymdeimlad o gymuned<br>• Lles/iechyd<br>• Sgiliau artisan<br>• Aberhonddu fel ardal twf yn hanesyddol<br>• Diwydiant amaethyddol<br>• Prifysgolion<br>• Sgiliau rheoli tir/stiwardiaeth | • Rheolaeth twristiaeth<br>• Darpariaeth gwasanaethau<br>• Hygyrchedd a dewis moddol<br>• Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau<br>• Màs critigol ar gyfer seilwaith cymdeithasol i gynnal hyfywedd aneddiadau a chymunedau<br>• Natur dymhorol twristiaeth<br>• Màs tir mawr<br>• Pasiau bws yn dod i ben ar y ffin<br>• Cyflogaeth cyflog isel<br>• Trafnidiaeth a'r angen i yrru<br>• Demograffeg poblogaeth sy'n heneiddio<br>• Gwerthoedd tir – tir amaethyddol a thir arall<br>• Darparu tai, yn enwedig tai fforddiadwy<br>• Diffyg tai a dewis sy'n creu her o ran cadw teuluoedd |

| | |
|---|---|
| | • Anarbedion maint<br>• Prifysgol y 'Drydedd Oes' |

| **CYFLEOEDD** | **BYGYTHIADAU** |
|---|---|
| • Y Fargen Twf<br>• Gyrfaoedd/addysg a chymwysterau broceriaeth<br>• Cysylltedd a chyfathrebu digidol<br>• Arallgyfeirio twristiaeth<br>• Cyflogaeth pobl leol gan ddatblygwr bach a chanolig<br>• Canolfannau tref manwerthu/ masnachol<br>• Prifysgolion rhanbarthol a champysau lloeren<br>• Dod â chyfarwyddwyr busnes newydd i mewn | • Angen am warchodaeth<br>• Cymunedau yn mynd yn farwaidd neu'n gaeth yn y gorffennol<br>• Cyflogaeth isel<br>• Amaethyddiaeth a'r berthynas gyda Brexit<br>• Cost yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau<br>• Her i gael cyllid ar gyfer seilwaith<br>• Rheoli twf wrth gynnal diwylliant<br>• Super Ferry Dulyn a'i effaith ar fasnach a'r economi ranbarthol<br>• Gwasanaethau a phoblogaeth yn symud i dde-ddwyrain Cymru<br>• Dyheadau plant mewn ardaloedd gwledig<br>• Castell-nedd Port Talbot a chyllid yr UE |

Trafodwyd Ysgogiadau a Rhwystrau cynllunio hefyd, a chodwyd y materion canlynol:

Ysgogiadau:

- Bargenion twf Canolbarth Cymru a chymorth busnes
- Cynaliadwyedd gwledig
- Pwysau'r sail dystiolaeth
- Materion gwledig sy'n amrywio yn ôl ACLl, gydag effaith ganlyniadol ar gapasiti, angen a chyfle
- Cynllunio hyblyg
- Pwysigrwydd arallgyfeirio a'r Gymraeg
- Ailwampio TAN 6
- Ardal Fenter Wledig

Rhwystrau:

- Perifferoldeb a bregusrwydd y cyfryw ardaloedd
- Cyfaddawd rhwng yr economi a'r amgylchedd

Trafodwyd blaenoriaethau ar gyfer y FfDC, a daeth y pwyntiau allweddol canlynol i'r amlwg:

- Canolbwyntio ar y boblogaeth yng nghanol y rhanbarth
- Gwarchod lleoliad ardaloedd gwledig yn ogystal â'r ased
- Mapio materion er mwyn sicrhau cyffredinrwydd
- Darparu tai
- Seilwaith a gwasanaethau
- Addasu i anghenion sy'n newid a gofynion ardaloedd gwledig
- Arallgyfeirio a gwydnwch ardaloedd gwledig

## 4.3 Amgylcheddol

| CRYFDERAU | GWENDIDAU |
|---|---|
| • Twristiaeth<br>• Amgylchedd morol<br>• Treftadaeth adeiledig<br>• Adnoddau | • Ansicrwydd ynghylch dyfodol ffermio ac effeithiau canlyniadol ar reoli tir<br>• Materion capasiti o fewn twristiaeth<br>• Trafnidiaeth gyhoeddus<br>• Hygyrchedd<br>• Cynaliadwyedd ardaloedd gwledig ar gyfer seilwaith cerbydau trydan<br>• Llygredd dŵr<br>• Canolfannau twristiaeth poblogaidd – tagfeydd ac effeithiau ar y dirwedd<br>• Cysylltedd grid<br>• Gorddibyniaeth ar y car preifat |

| CYFLEOEDD | BYGYTHIADAU |
|---|---|
| • Treth twristiaeth er budd ardaloedd lleol<br>• Tai<br>• Cronfeydd dŵr fel atyniadau<br>• Ynni adnewyddadwy ar y môr<br>• Economi gylchol – defnyddio gwastraff er budd<br>• Cydbwyso cynhyrchi ynni adnewyddadwy gyda thirwedd<br>• Cynhyrchu trydan cymunedol<br>• Digwyddiadau mawr i arddangos yr amgylchedd<br>• Arallgyfeirio twristiaeth e.e. Gweithgareddau awyr agored fel cynhyrchion unigryw – mwy na llety twristiaeth<br>• Seilwaith trafnidiaeth ar gyfer teithio pellter hir<br>• Seilwaith ynni<br>• Seilwaith rhannu ceir a pharcio<br>• Twristiaeth ffordd o fyw<br>• Trafnidiaeth gynaliadwy | • Diwydiannu ffermio – llygredd slyri a'r effaith amgylcheddol<br>• Dyfodol amaethyddiaeth yn erbyn effaith ar yr amgylchedd<br>• Llygredd dŵr<br>• Pysgota<br>• Gwarchod ardaloedd heb eu dynodi trwy bolisi<br>• Llygredd aer ac effeithiau carbon ffermio<br>• Canfyddiadau a chamsyniadau o ffermio/gweithrediad amaethyddiaeth (h.y. ffermio ar y tir yn erbyn gweithgareddau ehangach)<br>• Colli ffermio defaid ac effaith ar lystyfiant yr ucheldir<br>• Cyllido'r grid a'i weithrediad |

Trafodwyd Ysgogiadau a Rhwystrau cynllunio hefyd, a chodwyd y materion canlynol:

Ysgogiadau:

- Datblygu a Ganiateir ym maes amaethyddiaeth a ffermio
- Gwerthfawrogi'r amgylchedd – e.e. cyfalaf amgylcheddol
- Cymorthdaliadau a chymhellion i bobl i gymryd syniadau fel yr economi gylchol o ddifrif
- Asesiad amgylcheddol wedi'i gynyddu a'i gryfhau
- Cynllunio ar lefel strategol ar gyfer seilwaith trydan

Rhwystrau:

- Cyfyngiadau'r system gynllunio i ddatrys yr holl broblemau a heriau
- Polisi yn erbyn ymarfer

Trafodwyd blaenoriaethau ar gyfer y FfDC, a daeth y pwyntiau allweddol canlynol i'r amlwg:

- Cymru wledig i bawb
- Twf economaidd yn erbyn yr angen i warchod yr amgylchedd
- Canfod y cydbwysedd o ran pwy sy'n elwa
- Seilwaith i gerbydau trydan
- Arloesi yn erbyn gwarchod
- Cynllunio ar gyfer ardaloedd gwahanol a mathau gwahanol o weithgareddau ffermio
- Cysylltedd grid a seilwaith ynni ar y lefel genedlaethol
- Cydbwysedd rhwng datblygu ardaloedd gwledig ac atal unigedd ac anhygyrchedd

## 4.4 Crynodeb: Trosolwg Rhanbarthol

### 4.4.1 Pwyntiau allweddol

Roedd y deg o bwyntiau allweddol a godwyd gan randdeiliaid â buddiant yn yr ardaloedd gwledig yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru fel a ganlyn:

1. Mae yna angen clir i gydbwyso twf economaidd ac arloesi gyda gwarchod asedau amgylcheddol
2. Mae'r Gymraeg yn ased diwylliannol cryf mewn cymunedau gwledig, ond mae dan fygythiad gyda'r newidiadau yn y boblogaeth a llai o fynediad i ysgolion Cymraeg
3. Ceir cyfle i gynnwys cymunedau ac ar gyfer datblygiadau/mentrau yn cael eu harwain gan gymunedau ac entrepreneuriaeth a allai gael eu cefnogi drwy'r broses gynllunio
4. Ceir gwydnwch cymunedol cryf, ond mae hwn dan fygythiad yn sgil ail gartrefi, allfudo a mewnlifiad y boblogaeth gymudo, sy'n creu 'Canolfannau Cymudwyr' yn hytrach na chymunedau go iawn.
5. Mae ansawdd uchel yr amgylchedd naturiol yn cael ei werthfawrogi, ac mae angen i ardaloedd dynodedig ac ardaloedd heb eu dynodi gael eu gwarchod i'r dyfodol yn sgil yr hinsawdd yn newid
6. Mae angen i dai gael eu cysylltu'n well â chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, a dylai mwy gael eu darparu gan adeiladwyr a phobl leol
7. Mae twristiaeth yn ysgogwr economaidd pwysig ac mae'r sector yn cyflwyno nifer o gyfleoedd rhanbarthol yn gysylltiedig ag arallgyfeirio, gan gynnwys twristiaeth-amgylcheddol
8. Ceir dibyniaeth ar y car preifat, ac mae angen seilwaith gwefrio cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig yn y dyfodol
9. Mae angen mynd i'r afael ac unigedd, unigrwydd a mynediad at wasanaethau iechyd o ystyried newidiadau yn y boblogaeth sy'n heneiddio, a diffyg cyllid i gefnogi gofal cymdeithasol / cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol
